Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

27/03/26

Annwyl Rieni,

**Diolch**-Hoffwn ddiolch yn ddiffuant am eich holl gefnogaeth i ni fel ysgol yn ystod tymor arall brysur yn yr ysgol. Rydym fel staff yn gwerthfawrogi cyfraniad rhieni i weithgarwch yr ysgol.
Hoffwn ddiolch hefyd i'r staff am fod mor weithgar ac angerddol dros y plant a'r ysgol- son am brofiadau mae'r plant wedi eu derbyn unwaith eto tymor yma! Mae pawb yn haeddu seibiant haeddiannol dros y Pasg!

**Calendr Dyddiadau Allweddol**- Caiff ddyddiadau allweddol tymor nesaf eu rhannu'n electroneg pnawn ma a byddent hefyd ar gael ar ein ap a hefyd ar wefan yr ysgol. Edrychwch allan am y rhestr.

**Canu yng Ngharchar Rhuthun 28.03.26-** Bore fory, fe fydd Mrs Helen Williams a chriw o 10 o blant Blwyddyn 5 a 6 yn perfformio eitemau cerddorol fel rhan o ddathliadau ail agor y carchar. Byddent yn canu yno oddeutu 10.00yb- Pob dymuniad da iddynt a chofiwch alw draw i fwynhau'r canu.

**Gwersi Nofio-** Bydd plant Blwyddyn 3 a 4 yn parhau efo gwersi nofio ar ôl y Pasg am gyfnod o dair wythnos. Taliadau arferol drwy Parent Pay os gwelwch yn dda.

**Llwyddiant Cwis Dim Clem**- LLONGYFARCHIADAU ANFERTHOL i griw fechgyn 'FAST' Freddie, Alex, Steffan a Tomos. Maent wedi dod yn drydydd fel tîm yng nghystadleuaeth ar-lein 'CWIS DIM CLEM'- Cwis wedi selio ar gyfres o gwestiynau gwybodaeth gyffredinol. Gwych fechgyn!!!

**Tymor newydd**- Bydd yr ysgol yn ail agor i bawb ar ddydd Llun, Ebrill 13eg, 2026.

**Cyfarchion Pen-Blwydd-** Hoffwn ddymuno'n dda i Ffion Jones a Heather Mills- y ddwy yn dathlu penblwyddi 'mawr' yn ystod gwyliau'r Pasg! Mwynhewch y dathlu!

Gan ddymuno Pasg hapus iawn i chi gyd.

Yn gywir,

**Dyfan Phillips**
PENNAETH
Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*Dear Parents,*

***Thank you-*** *I would like to sincerely thank you for all your support for us as a school during another busy term. As staff, we appreciate the contribution parents make to school life. I would also like to thank the staff for being so hardworking and passionate about the children and the school – this is reflected in the rich and varied experiences offered to our pupils.*

***Key Dates Calendar-*** *Key dates for next term will be shared electronically this afternoon and will also be available on our app and on the school website. Please look out for the list.*

***Singing at Ruthin Gaol – 28.03.26*** *— Tomorrow morning, Mrs Helen Williams and a group of 10 Year 5 and 6 pupils will be performing musical items as part of the celebrations for the reopening of the gaol. They will be singing there at around 10:00am. We wish them the very best of luck, and please feel free to call in to enjoy the singing.*

***Swimming Lessons*** *— Year 3 and 4 pupils will continue with their swimming lessons after Easter for a period of three weeks. Usual payments through ParentPay please.*

***"Dim Clem" Quiz Success —*** *HUGE CONGRATULATIONS to our Year 6 quiz' team "FAST": Freddie, Alex, Steffan and Tomos. They came third as a team in the National online "Dim Clem Quiz" — a quiz based on a series of general knowledge questions. Excellent work, boys!*

.

***New Term*** *— The school will reopen for everyone on Monday, 13th April 2026.*

***Birthday Greetings****- Happy birthday to Miss Ffion Jones (Teaching Assistant) and Mrs Heather Mills (Clwb) who will be celebrating particular birthday milestones over the Easter holidays! Penblwydd hapus i chi!*

*Wishing you all a very happy Easter.*

*Yours sincerely,*

***Dyfan Phillips***
*HEAD TEACHER*
*Ysgol Pen Barras*